

## Canllawiau i Wneud Cais

Mae'r broses wedi agor i wneud cais i gynllun Sbardun Curadurol Jerwood. Y dyddiad cau i wneud cais yw 5pm, dydd Mawrth, 3 Mai 2022.

Mae modd iti weld y canllawiau hyn i wneud cais a'r ffurflen gais yn y fformatau hyn:

Canllawiau i Wneud Cais	Saesneg	Cymraeg
Recordiad Sain	<a href="#">Canllawiau i Wneud Cais</a>	<a href="#">Canllawiau i Wneud Cais</a>
Hawdd ei Ddeall	<a href="#">Canllawiau i Wneud Cais</a>	Amherthnasol
Print Mawr	<a href="#">Canllawiau i Wneud Cais,</a> <a href="#">Ffurflen Gais</a>	<a href="#">Canllawiau i Wneud Cais</a>
Testun Plaen	<a href="#">Canllawiau i Wneud Cais,</a> <a href="#">Ffurflen Gais</a>	<a href="#">Canllawiau i Wneud Cais</a>
Dogfen Word	<a href="#">Canllawiau i Wneud Cais,</a> <a href="#">Ffurflen Gais</a>	<a href="#">Canllawiau i Wneud Cais</a>
PDF i'w roi drwy feddalwedd adnabod testun	<a href="#">Canllawiau i Wneud Cais,</a> <a href="#">Ffurflen Gais</a>	<a href="#">Canllawiau i Wneud Cais</a>
Fideo BSL	<a href="#">Canllawiau i Wneud Cais</a>	

### Cynnwys:

- Beth yw rhaglen Sbardun Curadurol Jerwood?
- Dyddiadau pwysig
- Beth mae'r rhaglen yn ei gynnig?
- I bwy mae'r rhaglen hon?
- Ydw i'n gymwys?
- Cyngor a chymorth i wneud cais
- Ateb dy ofynion hygyrchedd
- Y broses ddethol

---

### Beth yw rhaglen Sbardun Curadurol Jerwood?

Rhaglen newydd sy'n para 12 mis yw rhaglen Sbardun Curadurol Jerwood (neu *Jerwood Curatorial Accelerator* – JCA). Ei nod yw cefnogi deg o guraduron sydd ar ddechrau'u gyrfaedd ac sy'n dod o gefndiroedd dosbarth gweithiol/economaidd-gymdeithasol isel, a hynny i ddatblygu eu rhwydweithiau, eu sgiliau, a'u huchelgeisiau i arwain.

Rhwng mis Gorffennaf 2022 a mis Gorffennaf 2023, bydd deg o Gymrodyr JCA yn cael eu dewis i deithio i wyth o orielau a sefydliadau blaenllaw ym maes y celfyddydau gweledol ledled y Deyrnas

Unedig. Yno, byddan nhw'n cael golwg y tu ôl i'r llen gan ddysgu am eu dulliau curadurol, am gymunedau o artistiaid, ac am waith sifig; byddan nhw'n cymryd rhan mewn rhaglen ar-lein sydd wedi'i chyd-greu i ddatblygu eu sgiliau curadurol a'u **sgiliau** arwain; a byddan nhw'n elwa o gael mentora unigol. Nod y rhaglen yw rhoi'r rhwydweithiau, y sgiliau a'r wybodaeth iddyn nhw i'w galluogi i gyflawni eu huchelgeisiau a chyfrannu at ddyfodol y sector celfyddydau gweledol.

Mae saith sefydliad Cynnal wedi'u cadarnhau, a bydd yr wythfed yn cael ei ddewis gan Gymrodyr JCA eu hunain. Dyma'r sefydliadau Cynnal:

- Centre for Contemporary Art, Derry-Londonderry (CCA)
- Dundee Contemporary Arts (DCA)
- Middlesbrough Institute of Modern Art (MiMA)
- Peak Cymru
- Somerset House
- Turner Contemporary
- Yorkshire Sculpture International (YSI)

Mae'r sefydliadau Cynnal yn rhoi cyfle i brofi amrywiaeth eang o leoliadau ac ymarfer curadurol, ac maen nhw hefyd yn sefydliadau o wahanol feintiau a mathau sydd wedi'u lleoli ledled y Deyrnas Unedig. Bydd pob sefydliad Cynnal yn creu rhaglen ddeuddydd gyda Chymrodyr JCA i'w cyflwyno nhw i'w gwaith, i'w rhwydweithiau a'u cymunedau. Byddan nhw'n creu gofod ar gyfer cyfnewid a rhannu gwybodaeth am wahanol elfennau o guradu heddiw. Fe all yr ymweliadau arwain at sgysiaau am agor casgliadau i'r cyhoedd, gweithio mewn cyd-destunau ôl-wrthdaro, curadu gyda grwpiau cymunedol, gweithio mewn cyd-destun gwledig, cyfraniad ysgrifennu, a chyfleoedd i greu lleoliadau sifig. Bydd cyfle hefyd i ymweld â stiwdios artistiaid ac i rwydweithio. Mae modd darllen mwy am y sefydliadau Cynnal [fan hyn](#).

Nod rhaglen JCA yw cynyddu amrywiaeth y profiadau bywyd a geir ymhlith arweinwyr yn y meysydd curadurol a'r celfyddydau gweledol. Mae curaduron yn cael eu cydnabod fel pobl sydd â llawer o ddylanwad, ac maen nhw'n gwneud cyfraniad hollbwysig at gynyddu amrywiaeth ac ehangder y gelfyddyd sy'n cael ei rhaglennu a'i rhannu â'r cyhoedd. Serch hynny, mae gwaith ymchwil yn awgrymu bod cryn ddiffyg mewn cefndiroedd amrywiol yn y celfyddydau gweledol: dim ond 21% o staff amgueddfeydd ac orielau sy'n huanu o gefndiroedd dosbarth gweithiol/economaid-gymdeithasol isel. Mae'r data hefyd yn awgrymu bod diffyg amrywiaeth ethnig, diffyg pobl anabl a diffyg menywod mewn swyddi arwain uwch drwy'r holl sector celfyddydau gweledol\*.

Mae rhaglen JCA gan hynny'n gweithio mewn dull croestoriadol, gan ganolbwyntio ar ganfod a meithrin curaduron ar ddechrau'u gyrfaedd sydd wedi wynebu rhwystrau oherwydd eu cefndir a'u hunaniaeth economaidd-gymdeithasol, gan roi rhaglen ddatblygu gynhwysol a hygyrch iddyn nhw, a honno wedi'i hariannu'n llawn, i'w galluogi nhw i ffynnu yn eu gyrfaedd.

*Mae rhaglen Sbardun Curadurol Jerwood yn cael ei hariannu gan Arts Council England a Sefydliad Esmée Fairbairn gyda chefnogaeth yr Art Fund. Mae'n rhan o Raglen Trawsnewid Arweinyddiaeth Arts Council England, a thrwy'r rhaglen honno mae Jerwood Arts hefyd yn darparu rhaglen Ysgoloriaethau Creadigol Weston Jerwood a Chronfa Alumni 2020-22. Mae'r rhaglen wedi'i dylunio a'i darparu gan Jerwood Arts, gyda chymorth arbenigol gan people make it work, Dr Dave O'Brien ac Annabel Jackson Associates Ltd.*

\*Ffynhonnell: Brook, O., O'Brien, D. a Taylor, M. (2018) Panic: Social class, taste and inequality in the creative industries.

---

## Dyddiadau Pwysig

Agor i geisiadau	Dydd Iau, 31 Mawrth 2022
Dyddiad cau i wneud cais	5pm, Dydd Mawrth 3 Mai 2022
Rhoi gwybod am benderfyniadau'r rhestr fer i bob ymgeisydd	Dydd Gwener, 27 Mai 2022
Cyfweliadau ar-lein gyda'r ymgeiswyr sydd ar y rhestr fer	Dydd Mercher 8, Dydd Iau 9 a Dydd Gwener 10 Mehefin 2022
Cyhoeddi enwau Cymrodyr JCA 2022	Mis Gorffennaf 2022
Ymweliad 1: Yorkshire Sculpture International (YSI)	Mis Gorffennaf 2022
Ymweliad 2: Dundee Contemporary Arts (DCA)	Mis Medi 2022
Ymweliad 3: Turner Contemporary	Mis Tachwedd 2022
Ymweliad 4: Middlesbrough Institute of Modern Art (MiMA)	Mis Rhagfyr 2022
Ymweliad 5: Centre for Contemporary Art, Derry-Londonderry (CCA)	Mis Chwefror 2023
Ymweliad 6: Somerset House	Mis Mawrth 2023
Ymweliad 7: Peak Cymru	Mis Mai 2023
Ymweliad 8: Dewis y Cymrawd JCA	Mis Mehefin 2023

---

## Beth mae'r rhaglen yn ei gynnig?

Rhaglen sy'n para 12 mis yw rhaglen JCA a honno'n helpu deg o guraduron ar ddechrau'u gyrfaoedd i ddatblygu eu sgiliau curadurol a'u sgiliau arwain. Mae'n cynnwys:

- Wyth o ymweliadau preswyl â'r sefydliadau Cynnal ledled y Deyrnas Unedig, i bara deuddydd bob un, gyda Chymrodyr JCA yn dewis yr wythfed lleoliad
- Rhaglen ar-lein o tua 12 o weithdai a sgysiau, gyda chyfle i ti lywio'r rhain dy hun er mwyn dy helpu i ddatblygu dy sgiliau curadurol a dy sgiliau arwain
- Mentor neu fentoriaid pwrpasol, unigol a fydd yn dy helpu i ddatblygu dy yrfa yn ystod y rhaglen 12 mis
- Cefnogaeth gan dîm Jerwood Arts i ddatblygu dy broffil a dy rwydweithiau

Mae'r rhaglen wedi'i hariannu'n llawn. Mae'n cynnwys:

- Ysgoloriaeth o £4,000 i dy gefnogi yn ystod dy gyfnod ar y rhaglen. Mae modd talu'r arian yn uniongyrchol i ti, ei dalu i dy gyflogwr er mwyn llenwi dy swydd dros dro, neu ei rannu'n hyblyg er mwyn dy alluogi i gymryd rhan
- Yr holl gostau teithio, costau llety, costau teithio lleol a chostau prydau a lluniaeth ar gyfer ymweld â'r sefydliadau Cynnal gan gynnwys unrhyw ofynion hygyrchedd a fydd gan unigolion

- Yr holl gostau sy'n gysylltiedig â'r rhaglen ar-lein o weithdai a sgysrsiau
- Cyllideb i unigolion o £750 ar gyfer mentora
- Cyllideb hygyrchedd i gefnogi anghenion Cymrodyr B/byddar, anabl neu niwroamrywiol a/neu'r rheini sydd â chyfrifoldebau gofalu

Rydyn ni wedi ymrwymo i weithio gyda'r Cymrodyr JCA a gaiff eu dewis i ddeall eu hamgylchiadau unigol a'u cefnogi i gymryd rhan yn llawn yn y rhaglen.

---

## I bwy mae'r rhaglen hon?

Mae rhaglen JCA wedi'i chynllunio i helpu unigolion sydd ar ddechrau'u gyrfaeodd, ac sydd â churadu'n greiddiol i'w gwaith. Mae'n rhaglen sy'n benodol ar gyfer ymgeiswyr sy'n arddel hunaniaeth pobl o gefndiroedd dosbarth gweithiol/economaidd-gymdeithasol isel, sef pobl sydd wedi'u tangynrychioli mewn ymarfer curadurol a'r celfyddydau gweledol yn y Deyrnas Unedig.

Efallai dy fod eisoes yn galw dy hun yn guradur, neu efallai nad wyt ti wedi dechrau gwneud hynny eto, ond bod hynny'n uchelgais gennyti. Rydyn ni'n cydnabod bod y term yn un sy'n llawn ystyron, ac yn y sector celfyddydau gweledol cyfoes, mae nifer o swyddi sy'n ymwneud â churadu ond heb ddefnyddio'r union deitl swydd hwnnw. Er enghraifft, ymhlith y swyddi y gallet ti fod yn eu gwneud neu wedi'u gwneud mae: rhaglennydd, trefnydd, cynhyrchydd, cydlynnydd ymgysylltu, neu gynorthwyydd i un o'r swyddi hyn. Efallai hefyd y byddi di'n ymarfer yn artistig dy hun, ochr yn ochr â gwneud gwaith curadurol. Mae'r diffiniad o 'guradur' yn y celfyddydau gweledol ac ystyr 'ymarfer curadurol' yn esblygu o hyd.

Ar gyfer y rhaglen hon, rydyn ni wedi datblygu'r rhestr ganlynol o weithgareddau gyda'r sefydliadau Cynnal sy'n nodweddiadol o ehangder yr ymarfer curadurol mae'r rhaglen yn ceisio'i gefnogi a'r math o waith rydyn ni'n disgwyl i'r ymgeiswyr fod yn ei wneud ar hyn o bryd:

- Trefnu, hwyluso neu gynhyrchu arddangosfeydd/digwyddiadau
- Cysylltu cynulleidfaoedd â chelfyddyd ac artistiaid
- Ymchwilio, archifo a rhannu gwybodaeth
- Gofalu am gyfleoedd ar gyfer ymarfer artistig, a meithrin a galluogi'r cyfleoedd hynny
- Gweithredu fel catalydd, cysylltydd a chydweithredwr
- Gweithio gyda sefydliadau a chymunedau, yn addysgol neu'n annibynnol
- Cwestiynu a dychmygu beth sy'n bosibl drwy gelfyddyd

Mae rhaglen JCA yn targedu pobl sydd bellach yn chwilio am eu her nesaf ac yn gofyn cwestiynau am eu huchelgeisiau hirdymor. Rydyn ni'n teimlo'n gyffrous o allu cefnogi'r canlynol yn y rhaglen hon:

- Curaduron sydd am archwilio a thyfu eu hymarfer yn sylweddol, ac sydd â dealltwriaeth feirniadol o sut i'w datblygu
- Curaduron sydd â'r cymhelliad i guradu, rhaglennu a chefnogi datblygiad gwaith o bwys yn y dyfodol

- Curaduron sy'n dangos potensial fel arweinwyr
- Curaduron na fyddai efallai'n ystyried gwneud cais am grantiau neu gyfleoedd datblygu fel rheol
- Curaduron a fyddai'n elwa o flwyddyn o ddatblygiad wedi'i gefnogi ar y pwynt hwn yn eu gyrfaedd
- Curaduron sydd o gefndir dosbarth gweithiol/economaidd-gymdeithasol isel
- Curaduron sydd wedi wynebu rhwystrau wrth ddatblygu eu gyrfaedd curadurol oherwydd eu hunaniaeth neu gefndir, neu sydd o gefndir neu sydd â hunaniaeth sydd wedi'i dangynrychioli yn y celfyddydau gweledol ar hyn o bryd

At hynny:

- Nid oes gofynion o ran cymwyseddau addysgol
- Mae croeso i guraduron sydd wedi dysgu'u hunain
- Nid oes cyfyngiad oedran uchaf, ond mae'n rhaid i guraduron fod dros 18 oed
- Rhaid i guraduron fod yn byw yn y Deyrnas Unedig, ond nid oes rhaid bod yn wladolion y Deyrnas Unedig; mae croeso i guraduron sydd wedi mudo yma i wneud cais
- Mae'r rhaglen yn cael ei darparu drwy'r Saesneg yn unig
- Nid oes prawf modd ariannol, ac mae croeso i guraduron sy'n cael budd-daliadau neu sy'n cael cymorth drwy'r cynllun Mynediad i Waith wneud cais
- Ni chaiff y curaduron fod mewn addysg ffurfiol amser llawn na rhan amser
- Mae modd i'r curaduron fod â phrofiad o gael eu cyflogi fel curaduron, yn annibynnol neu mewn sefydliad
- Fe all y curadu fod yn brif swydd rhywun, yn ail swydd, yn swydd lawrydd, neu'n swydd wirfoddol, cyn belled â bod gan rywun record o fod wedi dechrau ar ei ymarfer curadurol proffesiynol
- Nid oes gan gwmnïau, sefydliadau a chydweithfeydd hawl i wneud cais

---

## **Ydw i'n gymwys?**

Mae rhaglen JCA yn benodol ar gyfer unigolion sy'n arddel hunaniaeth pobl sydd ar ddechrau eu gyrfaedd ac yn dod o gefndir dosbarth gweithiol/economaidd-gymdeithasol isel.

Rydyn ni'n deall bod ein cefndiroedd a'n hunaniaethau yn gymhleth: ni fydd angen i ymgeiswyr 'brofi' eu bod nhw'n gymwys drwy'r broses ymgeisio hon. Yn hytrach, rydyn ni'n ceisio rhoi digon o wybodaeth iti fynd ati dy hun i ddiffinio pa mor addas wyt ti ar gyfer rhaglen JCA. Wrth ofyn cwestiynau, dim ond er mwyn deall sut y gall rhaglen JCA wneud gwahaniaeth i dy uchelgeisiau ar gyfer dy yrfa y byddwn ni'n gwneud hynny.

## **Dechrau gyrfa**

Mae'n anodd diffinio 'dechrau gyrfa' ac fe all hyn olygu rhywbeth gwahanol yn dibynnu ar amryw o ffactorau gan gynnwys y ffurf gelfyddydol, llwybrau gyrfa, y lleoliad ac amgylchiadau personol rhywun. Drwy holl gyllid Jerwood Arts, rydyn ni'n awyddus i gefnogi ymarferwyr sydd eisoes â

rhywfaint o brofiad proffesiynol a momentwm wrth ymarfer, ond sydd dal yng nghampau cynnar eu gyrfaedd.

Dyma'r diffiniad o 'ddechrau gyrfa' rydyn ni'n ei ddefnyddio ar gyfer rhaglen JCA, a bydd angen iti fodloni'r diffiniad hwn. Rydyn ni'n disgwyl y bydd llawer o bobl wedi'i chael hi'n anodd cael gwaith am dâl yn ystod pandemig Covid-19, ac efallai fod ganddyn nhw lai o enghreifftiau o'u hymarfer dros y 24 mis diwethaf. Bydd y canlynol yn cael ei ystyried yn ystod y broses asesu:

- **Mae gen ti record o gyflawni wrth wneud gwaith curadurol yn y celfyddydau gweledol, a byddi di wedi bod yn datblygu dy ymarfer am rhwng 3 a 7 mlynedd ers gadael unrhyw hyfforddiant addysgol** (os yw hynny'n berthnasol). Nid oes yn rhaid i hyn fod mewn swydd guradurol gyflogedig mewn sefydliad celfyddydol, nac yn brif ffynhonnell dy incwm yn ystod y cyfnod hwn.
- **Rwyt ti wedi gweithio ar 3 phrosiect, o leiaf, lle rwyt ti wedi dangos dy lais a dy weledigaeth guradurol dy hun.** Fe allai hyn gynnwys gwahanol fathau o weithgarwch, er enghraifft, datblygu digwyddiad, gweithio gydag artist ar gomisiwn, cyfrannu at syniadau curadurol ar gyfer prosiect mawr, curadu arddangosfa, datblygu prosiect sy'n ymwneud â'r gymdeithas, neu olygu cyhoeddiad.
- **Rwyt ti wedi dechrau creu rhwydweithiau yn y celfyddydau gweledol**, ond yn awyddus i ehangu'r rhain drwy'r Deyrnas Unedig.

Mae penderfynu pryd yn union y mae rhywun yn symud o 'ddechrau gyrfa' i 'ganol gyrfa' hefyd yn gymhleth. Dyma rai cerrig milltir a fyddai'n awgrymu dy fod y tu hwnt i'r cyfnod hwnnw mewn gyrfa sy'n fwyaf addas i gael cefnogaeth rhaglen JCA. Os wyt ti'n bodloni dau neu ragor o'r meini prawf canlynol, mae'n debygol na fyddi di'n gymwys:

- **Rwyt ti wedi bod yn brif guradur i arddangosfeydd cenedlaethol a/neu ryngwladol a'r rheini â phroffil uchel ac wedi cael cryn sylw yn y wasg.**
- **Mae gen ti eisoes rwydweithiau o gyfoedion ac artistiaid wedi'u sefydlu** yn y Deyrnas Unedig ac yn rhyngwladol.
- **Rwyt ti wedi gwneud rhywfaint o waith datblygu penodol ar dy ymarfer curadurol** yn ystod dy yrfa hyd yma. Gallai hyn gynnwys amser wedi'i gefnogi i wneud gwaith ymchwil, i fynd ar gyfnodau preswyl, neu i fod yn rhan o raglenni datblygu, neu gyda chymorth ariannol at hynny.
- **Mae gennyt ti gryn dipyn mwy na saith mlynedd o brofiad yn gweithio fel curadur yn y celfyddydau gweledol.**
- **Rwyt ti'n cael dy wahodd yn rheolaidd i gyfrannu at ddigwyddiadau, cyhoeddiadau ac arddangosfeydd.**

***Cefndir Dosbarth Gweithiol/Economaidd-Gymdeithasol Isel***

Gall dosbarth fod yn derm sydd â llawer o ystyron. Rydyn ni'n aml yn sôn am 'gefndir economaidd-gymdeithasol' yn hytrach na dosbarth oherwydd mae'n ein helpu i fod yn fwy penodol. Mae hefyd yn ein helpu i greu cysylltiad yn haws rhwng ein gwaith ni a gwaith sefydliadau eraill sy'n gweithio ym maes cyfiawnder cymdeithasol, ond y tu allan i'r sector celfyddydau. Er enghraifft, mewn ymchwil academaidd am symudedd cymdeithasol, cefndir economaidd-gymdeithasol neu darddiad economaidd-gymdeithasol yw'r termau sy'n cael eu ffafrio. Serch hynny, bydd y rhan fwyaf o bobl yn eu diffinio'u hunain yn nhermau dosbarth, e.e. 'Rwy'n perthyn i'r dosbarth gweithiol'.

Mae'r naill derm a'r llall yn cyfeirio at y gyfres benodol o amgylchiadau cymdeithasol ac economaidd y mae unigolyn wedi'i fagu ynddyn nhw. Mae'n go debygol y bydd unigolion o gefndir economaidd-gymdeithasol isel wedi mynd i un o ysgolion y wladwriaeth. Efallai y bydd wedi cael prydau ysgol am ddim yn blentyn, neu efallai fod incwm yr aelwyd yn ansefydlog pan oedd yn tyfu. Efallai ei fod wedi'i fagu yn y system gofal, neu mai dyma'r unigolyn cyntaf yn y teulu i fynd i'r brifysgol. Mae dosbarth gweithiol, neu ddosbarth budd-daliadau, yn dermau eraill y gallai pobl o gefndiroedd economaidd-gymdeithasol isel uniaethu â nhw. Os yw unigolion o gefndir economaidd-gymdeithasol isel, mae'n fwy tebygol y byddan nhw'n wynebu rhwystrau croestoriadol mewn cymdeithas, gan brofi hiliaeth, gwahaniaethu ar sail abledd, neu fathau eraill o wahaniaethu.

Rydyn ni wedi bod yn meddwl yn ofalus am ein hiaith drwy ein rhaglen, [Ysgoloriaethau Creadigol Weston Jerwood](#), ac mae ein dealltwriaeth o hyn yn parhau i esblygu. Ar gyfer rhaglen JCA, rydyn ni wedi penderfynu defnyddio'r ddau derm, sef dosbarth gweithiol a chefndir economaidd-gymdeithasol isel, a hynny er mwyn helpu'r ymgeiswyr i ddiffinio'u profiad eu hunain mewn perthynas â'r cyfle hwn.

I arddel hunaniaeth rhywun sydd wedi wynebu rhwystrau economaidd a chymdeithasol wrth weithio yn y celfyddydau, fel arfer byddi di'n arddel hunaniaeth rhywun o gefndir dosbarth gweithiol, ac yn bodloni o leiaf ddau o'r meini prawf hyn:

- Dim ond i ysgol neu goleg a oedd yn cael ei ariannu gan y wladwriaeth yr est ti
- Roeddet ti'n gymwys i gael prydau ysgol am ddim yn yr ysgol uwchradd (os oeddet ti'n astudio yn y Deyrnas Unedig)
- Ti oedd y genhedlaeth gyntaf yn dy deulu i gael addysg uwch
- Fe gest ti dy fagu ar aelwyd lle roedd y prif ofalwr, a thithau'n 14 oed, mewn categori galwedigaeth y gellid ei ddisgrifio'n fras fel
  - Di-waith;
  - Galwedigaethau gwaith llaw a gwasanaeth ailadroddus e.e. gyrrwr fan, glanhawr, porthor, gweinydd, staff bar;
  - Galwedigaethau gwaith llaw a gwasanaeth lled-ailadroddus e.e. gweithiwr post, swyddog diogelwch, gweithiwr peiriannau, staff derbynfa, cynorthwydd gwerthu.

## **Croestoriadedd**

Mae croestoriadedd yn cyfeirio at natur ryng-gysylltiedig nodweddion fel hil, dosbarth a rhywedd o ran sut mae'r rheini'n berthnasol i unigolyn neu grŵp penodol. Credir bod y rhain yn creu systemau sy'n achosi gwahaniaethu ac anfantais, a'r rheini'n gorgyffwrdd ac yn ddibynnol ar ei gilydd. Mae'r rhaglen yn mynd ati'n bwrpasol i gydnabod sut y mae cefndir economaidd-gymdeithasol yn croestorri â nodweddion gwarchoddedig fel rhywedd, anabledd a hil.

Rydyn ni'n sylweddoli y gall cymhwysedd yn hyn o beth fod yn gymhleth. Os nad wyt ti'n sicr o hyn, ac os hoffet ti drafod pa mor addas wyt ti ar gyfer y rhaglen, cysyllta â ni i drefnu sesiwn gynghori.

---

## **Cyngor a chymorth i wneud cais**

Rydyn ni wedi ymrwymo i sicrhau bod ein cyfleoedd yn hygyrch a bod y broses ymgeisio mor hwylus â phosibl. Mae hyn yn rhan o'r gwaith sy'n mynd rhagddo i groesawu ac annog ymgeiswyr sy'n wynebu rhwystrau i wneud cais.

- **E-byst:** Rydyn ni'n hapus i ateb cwestiynau mewn e-byst at Mirka Kotulicova, [mirka@jerwoodarts.org](mailto:mirka@jerwoodarts.org). Byddwn yn ceisio ymateb i dy e-bost o fewn tri diwrnod gwaith.
- **Sesiynau Cynghori:** Rydyn ni hefyd yn rhoi cyfle i bobl siarad ag aelod o dîm Jerwood Arts neu mewn sesiwn gynghori ddeg munud, a hynny cyn iddyn nhw wneud cais. Yn y sesiynau hyn, does dim modd inni ddarllen ceisiadau na thestun drafft, ond gallwn drafod dy gwestiynau neu dy syniadau penodol a rhoi arweiniad iti ar gyfer cryfhau'r rhain yn y cais. Anfona e-bost at Mirka Kotulicova, [mirka@jerwoodarts.org](mailto:mirka@jerwoodarts.org), gyda'r cwestiynau y byddet ti'n hoffi'u trafod a dy rif ffôn er mwyn trefnu sesiwn gynghori.
- **Y Cyfryngau Cymdeithasol:** I gael cyfle mwy anffurfiol i ofyn cwestiynau, byddwn yn cynnal sawl sesiwn 'Gofynna Unrhyw Beth' ar straeon Instagram neu Twitter @jerwoodarts drwy gydol y cyfnod pan fydd yr alwad ar agor. Dilyna @jerwoodarts i ofyn cwestiynau inni drwy'r dull hwn.
- **Digwyddiad:** Byddwn ni'n cynnal digwyddiad ar-lein ddydd Iau 12 Ebrill am 12pm i drafod cwestiynau cyffredin am raglen JCA. Dilyna @jerwoodarts ar y cyfryngau cymdeithasol am fanylion ynghylch sut i fod yn bresennol.

Sylwa mai cyngor am ba mor gymwys ac addas wyt ti i wneud cais yw'r cyngor y byddwn yn ei roi, ac ni fydd hyn yn dylanwadu o gwbl ar yr asesiad. Does dim rhaid iti fod wedi siarad ag aelod o staff Jerwood Arts cyn gwneud cais.

---

## **Ateb dy ofynion hygyrchedd**



Mae modd gweld y canllawiau hyn i wneud cais a'r ffurflen gais yn y fformatau canlynol. Sylwa fod y ffurflen gais wedi'i rhoi i dy helpu i ddrafftio dy atebion oddi ar lein cyn eu cyflwyno drwy'r [porth ymgeisio ar-lein](#):

<b>Canllawiau i Wneud Cais</b>	<b>Saesneg</b>	<b>Cymraeg</b>
Recordiad Sain	<a href="#">Canllawiau i Wneud Cais</a>	<a href="#">Canllawiau i Wneud Cais</a>
Hawdd ei Ddeall	<a href="#">Canllawiau i Wneud Cais</a>	Amherthnasol
Print Mawr	<a href="#">Canllawiau i Wneud Cais,</a> <a href="#">Ffurflen Gais</a>	<a href="#">Canllawiau i Wneud Cais</a>
Testun Plaen	<a href="#">Canllawiau i Wneud Cais,</a> <a href="#">Ffurflen Gais</a>	<a href="#">Canllawiau i Wneud Cais</a>
Dogfen Word	<a href="#">Canllawiau i Wneud Cais,</a> <a href="#">Ffurflen Gais</a>	<a href="#">Canllawiau i Wneud Cais</a>
PDF i'w roi drwy feddalwedd adnabod testun	<a href="#">Canllawiau i Wneud Cais,</a> <a href="#">Ffurflen Gais</a>	<a href="#">Canllawiau i Wneud Cais</a>
Fideo BSL	<a href="#">Canllawiau i Wneud Cais</a>	

## ***Cais Fideo/Sain***

Mae ein ffurflen gais ar-lein yn rhoi cyfle iti wneud cais ysgrifenedig, cais sain, neu gais fideo. Pa bynnag fformat y byddi di'n ei ddewis, yr un cwestiynau y byddwn ni'n gofyn iti eu hateb. Bydd gofyn iti gwblhau dy fanylion cyswllt a ffurflen monitro cyfleoedd cyfartal yn ysgrifenedig er mwyn ein helpu i brosesu dy gais. Ni fyddwn yn asesu dy arddull ysgrifennu nac ansawdd cynhyrchu recordiadau sain neu fideo.

## ***Gweithiwr Cymorth Hygyrchedd***

Gallwn gyfrannu hyd at £200 tuag at ffi Gweithiwr Cymorth Hygyrchedd i ymgeiswyr sydd angen hyn. Anfona e-bost at Mirka Kotulicova, [mirka@jerwoodarts.org](mailto:mirka@jerwoodarts.org), neu fffonia ni ar 07947 906 467 o leiaf un wythnos waith cyn y dyddiad cau er mwyn trafod sut y gallwn helpu.

## ***Rhestr o Ofynion Hygyrchedd***

Rydyn ni wedi ymrwymo i sicrhau bod y rhaglen yn hygyrch i'r curaduron sy'n cael eu dewis. Bydd Cymrodyr JCA yn cael dogfen hygyrchedd ar ddechrau'u blwyddyn gefnogi, er mwyn rhoi gwybod inni beth sydd ei angen arnyn nhw er mwyn cymryd rhan lawn yn y rhaglen, gan gynnwys wrth gyfathrebu ac wrth ymwneud ag elfennau digidol ac elfennau bywyd-go-iawn y rhaglen.

## ***Cyllideb Hygyrchedd***

Mae cyllideb hygyrchedd ar gael i gefnogi anghenion Cymrodyr JCA B/byddar, anabl neu niwroamrywiol, neu'r rheini sydd â chyfrifoldebau gofalu. Byddwn yn gweithio gydag unigolion i ddeall eu hanghenion penodol, gan gynnwys sut mae hyn yn berthnasol i daliadau Mynediad i Waith neu fudd-daliadau presennol.

---

## **Y Broses Ddethol**

Y dyddiad cau i wneud cais yw **5pm, dydd Mawrth 3 Mai 2022.**

Bydd o leiaf ddau unigolyn yn darllen pob cais, a hynny o blith staff Jerwood Arts, y sefydliadau cynnal ac aseswyr annibynnol sy'n cael tâl am eu gwaith. Bydd y darllenwyr yn cyfarfod i roi tua 20 o ymgeiswyr ar y rhestr fer ar gyfer cyfweliad. Bydd y cyfweliadau'n cael eu cynnal ar-lein ar 8, 9 a 10 Mehefin. Bydd yr ymgeiswyr sy'n cyrraedd y rhestr fer yn cael cwestiynau'r cyfweliad ymlaen llaw, ac yn cael eu cefnogi drwy'r broses. Bydd y penderfyniad terfynol yn cael ei seilio ar y cyfweliadau â'r ymgeiswyr sydd ar y rhestr fer. Bydd yr holl ymgeiswyr yn cael cynnig adborth am eu ceisiadau, o wneud cais am hynny o fewn mis.

Mae Jerwood Arts wedi ymrwymo i roi sylw i gydraddoldeb, amrywiaeth a chynhwysiant yn ein holl waith, ac mae manylion am ein camau gweithredu diweddaraf i'w gweld [fan hyn](#). Fel y nodir uchod, mae'r rhaglen yn targedu'n benodol y rheini sydd wedi wynebu rhwystrau yn eu gyrfaedd fel curaduron oherwydd eu cefndir dosbarth gweithiol/economaidd-gymdeithasol isel. Rydyn ni'n

cydnabod nad yw dosbarth/cefndir economaidd-gymdeithasol pobl yn nodwedd warchoddedig o dan Ddeddf Cydraddoldeb 2010 ar hyn o bryd, ond mae'n croestorri â nodweddion hunaniaeth eraill, gwarchoddedig, i greu 'anfantais ddwbl'. Byddwn felly'n dilyn dull o weithio sy'n gweithredu'n gadarnhaol drwy'r holl broses ddethol, er mwyn sicrhau bod y broses o wneud penderfyniadau'n un deg a chyfartal.

Mae'r rhaglen yn cael ei chefnogi gan gyllidwyr sydd wedi ymrwymo i weithio ledled y Deyrnas Unedig. Mae gennyn ni felly sefydliadau Cynnal ym mhob un o'r pedair cenedl, a'n huchelgais yw dewis curaduron ar ddechrau'u gyrfaedd o bob cenedl.

[BWRW ATI I WNEUD CAIS](#)